

---

# BWLETIN POLISI CYTÛN

## CYTÛN POLICY BULLETIN



### JULY / GORFFENAF 2012

---

GERAINT HOPKINS,

SWYDDOG POLISI,

CYTÛN – EGLWYSI YNGHYD YNG NGHYMRU

### Y PRIF WEINIDOG YN AMLINELLU BLAENORIAETHAU

### DEDDFWRIAETHOL YR AIL FLWYDDYN

Mae'r Prif Weinidog Carwyn Jones wedi amlinellu blaenoriaethau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn ei hail flwyddyn.

Gwnaeth y Prif Weinidog y cyhoeddiad wrth iddo roi'r newyddion diweddaraf i Aelodau Cynulliad ar hynt rhaglen deddfwriaethol bum mlynedd Llywodraeth Cymru. Yn ystod yr ail flwyddyn hon o raglen bum mlynedd Llywodraeth Cymru, cyflwynir saith bil pellach:

- Bydd **Bil Rheoli Cŵn** yn cael ei gyflwyno'r gwanwyn nesaf er mwyn amddiffyn y cyhoedd drwy hyrwyddo perchnogaeth gyfrifol ar gŵn. Bydd perchnogaeth gyfrifol yn hanfodol i'r newidiadau, a thrwy gyflwyno Hysbysiadau Rheoli Cŵn, bydd gofyniad cryf ar gyfer addysg a hyfforddiant i gŵn a'u perchnogion neu geidwaid fel ei gilydd.
- Bydd y **Bil Democratiaeth Leol** yn gwneud etholiadau lleol a gweithgarwch cynrychiolwyr lleol yn fwy tryloyw.
- Mae'r **Bil Trawsblannu Dynol** yn gam mawr ymlaen o ran creu system feddal o optio allan ar gyfer rhoi organau yng Nghymru. Cyflwynir y Bil erbyn diwedd eleni gyda'r bwriad o roi system feddal newydd o optio allan ar waith yn 2015.
- Bydd y **Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)** yn creu fframwaith cyfreithiol cydlynol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, a hynny am y tro cyntaf. Cyflwynir y Bil ar ddechrau 2013. Bydd y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) yn cyfuno mesurau a oedd i fod yn rhan o Fil Plant a Phobl Ifanc i gryfhau'n cymorth i blant sy'n derbyn gofal, sefydlu gwasanaethau mabwysiadu unigol i Gymru, adolygu'n safbwynt ar ddiogelu a gosod safonau cenedlaethol, ac ystyried rôl a swyddogaeth Byrddau Lleol Diogelu Plant.
- Bydd **Bil Rheoleiddio ac Arolygu** yn cael ei gyflwyno i ymdrin â rheoleiddio ac arolygu'r gweithlu gofal cymdeithasol, hyfforddiant a gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru.

- Bydd **Bil Teithio Llesol** yn cael ei gyflwyno ddechrau'r flwyddyn nesaf er mwyn helpu pobl Cymru i ddod yn iachach, yn fwy egnïol, ac yn fwy ymwybodol o'u hamgylchedd;
- Bydd **Bil Gweithlu Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru** yn cael ei gyflwyno yn y gwanwyn y flwyddyn nesaf i roi'r gweithlu wrth wraidd gwella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Hefyd cyhoeddodd y Prif Weinidog ddau Fil Addysg a fydd yn cael eu cyflwyno i helpu i adeiladu cymdeithas gyfiawn, gynhwysol a theg:

- Bydd **Bil Addysg Bellach ac Uwch** yn cyflwyno nifer o argymhellion Adroddiad Humphreys ar lywodraethu Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru. Bydd hefyd yn newid strwythur y corff sy'n gyfrifol am gynllunio strategol a chyllid Addysg Uwch a dibenion cysylltiedig eraill.
- **Bil Addysg (Cymru)** Bydd y Bil hwn yn gwella rheoli perfformiad yn y byd addysg, ac yn diwygio'r system bresennol o ddatganiadau ar gyfer plant a phobl ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig.

Yn ogystal â'r wyth bil yma, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal yr ymgynghoriadau Papur Gwyn canlynol:

- **Y Bil Rhoi Terfyn ar Drais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig** a fydd yn sail i'n strategaeth integredig ar gyfer mynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig.
- Ymgynghoriad ar y **Bil Datblygu Cynaliadwy** a fydd yn datblygu ac yn cryfhau'r agwedd tuag at ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru.
- Ymgynghoriad ar y **Bil Amgylchedd** a fydd yn galluogi inni sicrhau agwedd fwy integredig tuag at reoli'r amgylchedd.
- Dilynir hyn gan Bapur Gwyn ar y **Bil Diwygio Tenantiaethau** arfaethedig, i roi sylw i ddiwygio tenantiaethau ar draws sectorau tai cymdeithasol a phreifat yng Nghymru.

***Gallwch ddarganfod mwy am raglen ddeddfwriaethol bum mlynedd Llywodraeth Cymru yma.***

## **LLYWODRAETH CYMRU YN CROESAWU CYHOEDDIAD AR DRYDANEIDDIO'R RHEILFFORDD**

Mae Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, a'r Gweinidog Trafnidiaeth, Carl Sargeant, wedi croesawu'r cyhoeddiad y bydd Prif Reilffordd y Great Western i Abertawe a rhwydwaith Rheilffyrdd y Cymoedd yn cael eu trydaneiddio yn ystod y cyfnod nesaf o fuddsoddi yn y rheilffyrdd rhwng 2014-19.

Wrth ymateb i'r cyhoeddiad, dywedodd Carwyn Jones, "Rwyf wrth fy modd y bydd Prif Reilffordd y Great Western i Abertawe a rhwydwaith Rheilffordd y Cymoedd yn cael eu trydaneiddio yn ystod y cyfnod nesaf o fuddsoddi yn y rheilffyrdd. Mae buddsoddi yn ein seilwaith trafndiaeth yn hanfodol wrth i ni geisio gwella cystadleugarwch economaidd Cymru. Bydd trydaneiddio Prif Reilffordd y Great Western o Gaerdydd i Abertawe yn sicrhau coridor economaidd cryfach o'r dwyrain i'r gorllewin. Bydd hyn yn hwb mawr i rôl Abertawe

fel canolfan economaidd. Mae'r cyhoeddiad heddiw yn cefnogi'n safbwynt nad Caerdydd yw diwedd y lein nac unig ganolbwynt ein huchelgais o ran llwyddiant economaidd yng Nghymru."

Ychwanegodd Carl Sargeant: "Mae trydaneiddio rhwydwaith Rheilffyrdd y Cymoedd yn gyfle i chwyldroi teithio i gymunedau'r Cymoedd a chysylltiadau â'r canolfannau economaidd. Bydd hefyd yn creu dalgylch cyflogaeth mwy i fusnesau sydd eisiau buddsoddi yn y rhanbarth. Mae'r penderfyniad i fuddsoddi yn y prosiectau hyn yn cynrychioli'r cam cyntaf tuag at wireddu fy ngweledigaeth o seilwaith rheilffyrdd modern i Gymru gyfan. Gallwn, yn awr, fwrw ymlaen â'n cynlluniau ar gyfer system drafnidiaeth integredig i ranbarth y de-ddwyrain."

Mae Rheilffyrdd y Cymoedd yn cynnwys: Rheilffordd Bro Morgannwg (yn cynnwys rheilffyrdd y Barri a Phenarth); Rheilffordd Maesteg; Rheilffyrdd Treherbert, Aberdâr a Merthyr Tudful; Rheilffordd Rhymni; Rheilffordd Glyn Ebwy; a Rheilffordd y Ddinas (yn cynnwys Rheilffyrdd Bae Caerdydd a Choryton).

## **ADOLYGIAD O RAGLENNI EWROPEAIDD YNG NGHYMURU**

**Mae Dirprwy Weinidog Rhaglenni Ewropeaidd Cymru, Alun Davies, wedi cyhoeddi adolygiad annibynnol o'r modd y mae y mae Cymru'n rheoli ei Rhaglenni Ewropeaidd er mwyn eu gwella a sicrhau'r canlyniadau gorau o ran hybu twf a chreu swyddi yng Nghymru.**

Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar symleiddio'r broses o wneud cais am arian, sicrhau canlyniadau wrth gyflawni prosiectau, a gwneud o gorau o'r sector preifat. Bydd hefyd yn ystyried sut i integreiddio rhaglenni cyllid Ewropeaidd, gan gynnwys defnyddio un llwyfan e-fusnes er mwyn i gwsmeriaid allu rheoli eu systemau cyllid, rheolau cymhwysedd cyffredin, archwilio, monitro ariannol a thalu.

Bydd dwy ran i'r adolygiad, a'i amcan fydd cynnig argymhellion cychwynnol erbyn diwedd mis Tachwedd 2012 ac erbyn diwedd mis Chwefror 2013. Bydd yn cyd-fynd ag ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar y rhaglenni newydd yn nes ymlaen eleni cyn cynnal trafodaethau ffurfiol â'r Comisiwn Ewropeaidd ganol 2013.

Bydd yr adolygiad annibynnol yn ategu'r gwaith datblygu ôl 2013 sydd eisoes ar waith gyda phartneriaid Cymru - gan gynnwys yr Ymarfer Myfyrio, y Fforwm Partneriaeth Rhaglenni Ewropeaidd a'r Ffrydiau Gwaith diweddar.

## **GRANTIAU I HYRWYDDO'R GYMRAEG**

**Mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd ceisiadau am grantiau gan fudiadau o dan ei raglen sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ar gyfer 2013/14.**

Bydd y grantiau'n cefnogi amcanion strategaeth iaith Gymraeg bum mlynedd Llywodraeth Cymru *iaith fyw: iaith byw*. Prif ffocws y grantiau yw cefnogi gweithgareddau sy'n:

- Annog a chefnogi defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn teuluoedd.
- Cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith.
- Cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned.

Rhoddir ystyriaeth hefyd o dan feysydd eraill y strategaeth, sef:

- Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- Gwella gwasanaethau Cymraeg i ddinasyddion.
- Cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith, gan gynnwys technoleg a'r cyfryngau.

Derbynnir ceisiadau am grantiau gan fudiadau o'r trydydd sector, y sector breifat a'r sector gyhoeddus ar gyfer gweithgareddau nad ydynt wedi'u cynnwys yn eu cynlluniau iaith.

***Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 14 Medi 2012. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar sut mae gwneud cais [yma](#).***

## **CWRS NEWYDD I HELPŪ TEULŪOEDD I DDYSGU CYMRAEG GYDA'I GILYDD**

**Mae cwrs newydd i helpu teuluoedd i ddysgu Cymraeg gyda'u plant wedi'i lansio.**

Bydd y cwrs Cymraeg i Deuluoedd, sydd wedi'i deilwra'n arbennig, yn cael ei redeg gan Ganolfannau Cymraeg i Oedolion, ac ariannwyd y gwaith datblygu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cwrs wedi'i anelu ar gyfer rhieni ac aelodau o'r teulu estynedig sydd am ddysgu Cymraeg fel eu bod yn gallu rhyngweithio a'u plant sy'n cael addysg Gymraeg neu sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith yn yr ysgol neu'r ysgol feithrin, gyda phwyslais cadarn ar gael hwyl a mwynhau.

Mae deunyddiau ategol ar gyfer y cwrs yn cynnwys gêm fwrdd, llyfr gwaith cartref a CD fel y gall rhieni ddysgu Cymraeg gyda'u plant trwy chwarae, canu a helpu gyda gwaith cartref. Mae'r cwrs 120 o oriau yn addas ar gyfer y rheini sydd heb unrhyw Gymraeg neu sydd ag ychydig o'r iaith yn unig, a byddai gan amlaf yn cael ei ddysgu am ddwy awr yr wythnos dros ddwy flynedd, ond mae fersiwn mwy dwys ar gael. Bydd y cwrs yn boblogaidd mewn ysgolion a dylai athrawon neu lywodraethwyr ysgolion gysylltu â'u Canolfan Gymraeg i Oedolion leol os oes ganddynt ddiddordeb mewn cynnal y cwrs ar gyfer rhieni yn eu hysgol.

***Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid o £99,374 ar gyfer datblygu'r cwrs. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y cwrs Cymraeg i Deuluoedd [yma](#).***

## **NEGES RAMADAN Y PRIF WEINIDOG**

**Mae Prif Weinidog Cymru Carwyn Jones wedi dymuno'n dda i bob cymuned Fwslemaidd ar ddechrau mis y Ramadan.**

Meddai'r Prif Weinidog: "Ar adeg y Ramadan, hoffwn i estyn dymuniadau gwresog i bob Mwslim yng Nghymru ac ym mhedwar ban y byd. Rydym i gyd yn rhannu'r gwerthoedd sy'n ganolog i Ramadan, sef elusengarwch, trugaredd a meddwl am eraill. Yn ystod y cyfnod hwn mae'r cymunedau Mwslemaidd yn dod ynghyd i weddio a myfyrio, i rannu pryddau ac i gefnogi'r rhai llai ffodus. Hoffwn ddyuno mis bendigedig i bawb sy'n dilyn y Ramadan, a heddwch a hapusrwydd trwy gydol y flwyddyn."

## **Y PRIF WEINIDOG YN RHANNU EI WELEDIGAETH AM DEYRNAS UNEDIG 'NEWYDD'**

**Mae Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, wedi rhannu ei weledigaeth am Deyrnas Unedig 'newydd' mewn araith yn San Steffan y mis diwethaf.**

Yn ei araith fawr gyntaf ar y pwnc y tu allan i Gymru, gofynnodd y Prif Weinidog sut y dylid llywodraethu gwahanol diriogaethau'r DU, a sut y dylai eu llywodraethau a'u deddfwriaethau ymwneud â'i gilydd o fewn y DU.

Ymwrthododd ag annibyniaeth i Gymru gan rannu ei weledigaeth o Deyrnas Unedig a fyddai, yn ei olwg ef, yn amrywiol yn wleidyddol, yn fwy llac, ac yn cyfuno sawl canolfan o atebolrwydd democrataidd. Dywedodd bod angen ailosod y berthynas rhwng y cenhedloedd datganoledig a Llywodraeth y DU. Galwodd am greu Confensiwn Cyfansoddiadol er mwyn cytuno ar setliad cyfansoddiadol newydd i'r DU.

## **CYMRU'N AILGYLCHU BRON I HANNER EI GWASTRAFF YN YSTOD 2011/12**

**Mae adroddiad newydd yn dangos bod 48 y cant o wastraff trefol Cymru wedi'i ailgylchu neu'i gompostio yn ystod 2011/12, cynnydd o 4 pwynt canran ar ffigur 2010/11 o 44 y cant.**

Mae'r ffigyrau hyn yn golygu bod Cymru ar y trywydd cywir i gyrraedd ei tharged statudol o 52 y cant yn 2012-2013. Gwelwyd cynnydd sylweddol mewn ailgylchu yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf, gan lwyddo i gyrraedd sawl carreg filltir, ac yn eu plith:

- Cymru yw'r unig wlad yn y DU i gyflwyno targedau ailgylchu statudol ar gyfer gwastraff trefol
- Cymru yw'r unig wlad yn y DU lle mae'r holl awdurdodau lleol yn cynnig casgliadau bwyd neu fwyd a gwastraff gwyrdd ar wahân
- Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno Cynllun Lwfansau Tirlenwi
- Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno tâl am fagiâu siopa untro.

Mae gan Lywodraeth Cymru gyfres o dargedau heriol, gyda'r nod o ailgylchu 70% o wastraff erbyn 2025, a bod yn ddiwastraff erbyn 2050.

***Mae'r ffigyrau ar gael [yma](#).***

## **ARIAN I LEIHOU EFFAITH TLODI AR DEULUOEDD**

**Y mis hwn cyhoeddodd Gwenda Thomas, Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, bron i £42miliwn y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru i gefnogi teuluoedd mwyaf bregus a difreintiedig Cymru.**

Mae'r cyllid ar gyfer y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnwys £3miliwn ar gyfer prosiectau sy'n canolbwyntio ar anabledd. Cyflawnir Teuluoedd yn Gyntaf gan awdurdodau lleol mewn ymateb i anghenion lleol, gyda gwasanaethau a phrosiectau'n targedu teuluoedd y mae tlodi'n effeithio arnynt neu sydd mewn peryg o fod mewn tlodi.

Nod rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru yw:

- Helpu pobl o oedran gweithio mewn teuluoedd incwm isel i ddod o hyd i waith a datblygu yn eu swyddi.
- Annog plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n dlawd neu'n agored i risg o dlodi i gyflawni eu potensial.
- Sicrhau bod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn iach ac yn ddiogel.

Dywed Llywodraeth Cymru y bydd yn parhau i ganolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar drwy raglenni fel Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen. Mae Dechrau'n Deg wedi derbyn cynnydd sylweddol yn y cyllid y mae'n ei dderbyn. Y gwahaniaeth allweddol yw bod Teuluoedd yn Gyntaf yn rhoi cymorth i bob grŵp oedran..

***Gallwch ddysgu mwy am Deuluoedd yn Gyntaf [yma](#).***

## **BYDD RHAGLEN NEWYDD AR GYFER ANAWSTERAU DYSGU YN CYNORTHWYO POBL O BOB OED**

**Mae Dirprwy Weinidog Sgiliau Cymru, Jeff Cuthbert, wedi cyhoeddi rhaglen newydd o gamau gweithredu i helpu pobl o bob oed a phob cam o fywyd, sydd ag anawsterau dysgu penodol, gan gynnwys dyslecsia.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi sut y bydd yn datblygu fframwaith ar gyfer anawsterau dysgu penodol. Nod y fframwaith fyddai rhoi arweiniad i bobl o bob oed yn ogystal â rhieni a gofalwyr, sefydliadau addysg, cyflogwyr, gweithwyr cyhoeddus a'r cyhoedd. Byddai'r fframwaith yn ystyried y ddarpariaeth bresennol ar gyfer anawsterau dysgu penodol sydd ar gael ym mhob awdurdod lleol a'r hyn sydd eisoes wedi'i ddatblygu ar gyfer anghenion dysgu penodol unigol, gan gynnwys dyslecsia.

Bydd y fframwaith hefyd yn ceisio gweithio gyda phob sefydliad addysg er mwyn sicrhau bod pob dysgwr sydd ag anawsterau dysgu penodol yn cael cymorth. I ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog hefyd fod Grŵp Gorchwyl wedi'i sefydlu i asesu'r adnoddau presennol, datblygu adnoddau newydd ar gyfer Dyslecsia yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ôl y gofyn ac er mwyn sicrhau bod cysylltiadau'n cael eu meithrin gyda pholisiau ar draws Adrannau Llywodraeth Gymru. Bydd y rhain yn canolbwyntio'n benodol ar:

- Nodi camau gweithredu priodol o fewn y rhaglen llythrennedd genedlaethol.
- Polisiâu cyflogadwyedd a chymorth.
- Mireinio'r ffordd y caiff data eu casglu ar gyfer anawsterau dysgu penodol i sicrhau bod gwell data cymharol ar gael ar gyfer pob oedran a phob cam.

## **PRIF WEINIDOG CYMRU YN CROESAWU'R TIMAU OLYMPAIDD**

**Cynhaliodd Prif Weinidog Cymru Carwyn Jones dderbyniad arbennig ar gyfer cynrychiolwyr o'r timau Olympaidd cenedlaethol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru cyn Gemau Llundain 2012.**

Yn y digwyddiad ym Mae Caerdydd estynnodd groeso i aelodau o'r timau sydd wedi defnyddio lleoliadau ar draws Cymru er mwyn paratoi ar gyfer y digwyddiad chwaraeon mwyaf yn y byd. Y timau Olympaidd a gafodd eu lleoli yng Nghymru oedd Rwsia, Botswana, Hong Kong, Seland Newydd, Trinidad a Tobago, Lesotho a'r Gymdeithas Bocsio Amatur Rhyngwladol.

Roedd arddangosfa 'Dilyn y Fflam' yr Ymddiriedolaeth Etifeddiaeth i'w gweld yn ystod y derbyniad. Mae'r arddangosfa'n defnyddio Gemau 2012 fel ysgogiad i archwilio a dathlu'r hanes ysbrydoledig am ddynion a merched Cymru'n cymryd rhan yn y Gemau - stori a anghofir yn aml. Defnyddiodd y Prif Weinidog y derbyniad fel cyfle i hyrwyddo Cymru fel lleoliad hyfforddi cyn Gemau'r Gymanwlad yng Nglasgow yn 2014.

**GERAINT HOPKINS**  
**SWYDDOG POLISI, CYTÛN**